

ARFORDIR
PENFRO
LLAWN
RHYFEDDOD

PEMBROKESHIRE
WONDER
FILLED
COAST

www.arfordirpenfro.cymru/pethau-iw-gwneud/mynediad-i-bawb/cadeiriau-olwyn-y-traethau/



Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Offer hygyrchedd



Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast
National Park



Cadair Olwyn 'DeBug' ar gyfer Pob Tir a'r Traeth

- Wedi'i dylunio i'w defnyddio ar draethau, arwynebau wedi'u gorchuddio ag eira, a llwybrau coedwig.
- Cefn sy'n mynd yn gwbl lorweddol, a chynhaliwr coes y gellir ei dynnu oddi yno a'i godi'n llawn.

Manylebau:

- Lled y Sedd: 14", 18", 22"
- Dyfnder y Sedd: 17"
- Uchder o'r Sedd i'r Llawr: 17" - 21"
- Uchder Cefn y Gadair: 18"
- Cynhaliwr Traed (O'r Pen-glin i'r Sawdl): 15" - 22"
- Capasiti Pwysau: 250 - 400 lbs
- Pwysau'r Gadair: 40 - 65 lbs

[Fideo Arddangos Cadair Olwyn 'DeBug' ar gyfer y Traeth - YouTube](#)



Cadair Olwyn 'DeBug' Ogwyddol ar gyfer Pob Tir a'r Traeth

- Mae gan gadair 'DeBug' gynhaliwr coes y gellir ei dynnu oddi yno a'i godi'n llawn, a chefn sy'n mynd yn gwbl lorweddol.
- Mae'r gadair hon wedi'i dylunio i gludo defnyddwyr cadair olwyn ar draws ardaloedd fel traethau, palmentydd wedi'u gorchuddio ag eira, llwybrau coedwig.

Manylebau:

- Maint y Sedd
- Lled: 14", 18", 22"
- Dyfnder cyfartalog: 17"
- Uchder o'r Sedd i'r Llawr: 17" - 21"
- Uchder Cefn y Gadair: 18"
- Cynhaliwr traed telesgop (o'r pen-glin i'r sawdl): 15" - 22"
- Cynhaliwr coes y gellir ei godi (o'r pen-glin i'r sawdl): 15" - 22"
- Pwysau:
- Capasiti: 250 - 400 lbs
- Pwysau'r gadair: 40 - 65 lbs

[Cadair Olwyn 'DeBug' ar gyfer Pob Tir a'r Traeth - i weld y fideo swyddogol, cliciwch y ddolen](#)
[Cadair Olwyn 'DeBug' Plygu a Gwyro'n Ôl ar gyfer y Traeth \(DeBug Tilt N Recline Beach Wheelchair\)](#)



Landeeze

Nid yw'r gadair hon yn cael ei chynhyrchu mwyach, felly nid oes gennym lawer o fanylion..

- Cadair ganolig ei maint
- Olwynion Wheeleze

Sand cruiser

Manylebau:

- Mae'r olwynion polywrethan mawr ar gyfer y traeth yn sicrhau taith gyfforddus dros dir anwastad.
- Wedi'u dylunio gyda theithio mewn golwg, gellir datgymalu'r ddwy gadair a'u hailosod yn rhwydd.
- Uchder y sedd yw 48cm, ac mae'r breichiau'n codi er mwyn trosglwyddo'n ddiogel ac yn rhwydd.
- Olwynion castor ar y tu blaen, sy'n gallu troi 360°.
- Cynhalwyr coes y gellir eu tynnu oddi yno a'u haddasu er mwyn bod mor gyfforddus â phosibl.
- Mae gorchudd y sedd wedi'i wneud o acrylig anadladwy sy'n gryf iawn, yn gwrthsefyll dŵr hallt, yn cynnwys sefydlogrwydd uwchfioled ac yn sychu'n gyflym.
- Ffrâm dur gwrthstaen gradd forol sy'n ei gwneud yn gryf ac yn gadarn, ac sydd hefyd yn gwrthsefyll rhwd.
- Mae'n ysgafn, ac mae'n hawdd ei phacio i'w storio.
- Mae gwregys glin wedi'i osod fel mater o drefn, sy'n fesur diogelwch ychwanegol. Y pwysau mwyaf a ganiateir ar gyfer defnyddwyr yw 120kg.
- Mae'r lled yn 980mm i gyd, gan gynnwys yr olwynion.

Nodweddion

- Olwynion balŵn WheelEEZ
- 2x 420mm yn y cefn
- 1x 300mm yn y tu blaen





Mountain Trike

1. FFRÂM - Ffrâm Alwminiwm
2. HONGIAD - Siociau aer Rock Shox monarch R
3. BRÛCS - Brêcs disg hydrolig Lefel SRAM ar gyfer pob tywydd
4. CYNHALIWR TRAED - Cynhaliwr traed y mae'n bosibl addasu ei uchder, sy'n plygu am i fyny er mwyn trosglwyddo, ac y gellir ei dynnu oddi yno
5. CYNHALIAETH - Clustogau cyfforddus wedi'u mowldio, strapiau cynnal tyndra y gellir eu haddasu, strapiau traed, opsiwn ar gyfer gwregys diogelwch
6. HYD (WEDI'I GOSOD YN LLAWN) - 132cm
7. LLED Y SEDD- 17 modfedd
8. ONGL Y SEDD - 'Bwced' 20 gradd er mwyn bod yn ddiogel ac yn gyfforddus
9. CLUSTOG Y SEDD - Clustog sbwng y gellir ei thynnu oddi yno (Maint 40cm), ffabrig polyester y gellir ei lanhau â chadach
10. UCHDER Y SEDD O'R LLAWR - 46.5cm
11. HYD Y SEDD - 44.7cm - 48.7cm
12. UCHDER Y CYNHALIWR TRAED - Uchder mwyaf y cynhaliwr traed - 41cm-48cm
13. MAINT YR OLWYNION - 24 modfedd
14. CYFANSWM LLED - 74cm
15. PWYSAU - 20kg
16. UCHDER Y CEFN - 37cm (gellir hefyd ei symud ymlaen neu'n ôl), mae seddi â chefn uwch ar gael ar gais
17. Y GYRRWR - Y pwysau mwyaf a ganiateir ar gyfer y gyrrwr yw 100KG, a'r taldra uchaf a ganiateir yw 6'4
18. CLUDO - Gellir plygu cadair 'Mountain Trike' yn giwb er mwyn ei chludo'n rhwydd. Dydy perfformiad y gadair mewn damwain ddim wedi cael ei brofi.

<https://youtu.be/Rm19EvjGh-Y>



Cadair Olwyn 'ePUSH Mountain Trike' ar gyfer Pob Tir

- Gellir ei defnyddio drwy ei gwthio â llaw, gyda chymorth pŵer, neu yn y modd hybrid.
- Dyluniad y gellir ei blygu er mwyn gallu cludo'r gadair yn rhwydd.

Manylebau:

- Brêcs: Brêcs disg hydrolig Lefel SRAM ar gyfer pob tywydd
- Llywio: Rheoli â handlen wthio
- Lled y Sedd: 17"
- Uchder y Sedd o'r Llawr: 46.5cm
- Maint yr Olwynion: 24"
- Cyfanswm Lled: 74cm (heb ymylon gwthio), 78cm (gydag ymylon gwthio)
- Pwysau: 25kg
- Modur: 250W, modur both 36V
- Batri: 12.8Ah, 36V i'w lithiwm
- Cyflymder: Hyd at 3.5 milltir yr awr
- Pwysau Mwyaf a Ganiateir ar gyfer y Gyrrwr: 100kg
- Uchder Mwyaf a Ganiateir ar gyfer y Gyrrwr: 6'4"

Cadair olwyn pob tir, newydd 'ePUSH' gan Mountain Trike - YouTube



eTrike

Cadair olwyn pob tir â chymorth trydan, y gellir ei gyrru mewn tair ffordd wahanol

- Drwy wthio'r liferi gyrru sy'n galluogi'r gyrrwr i gael dwylo glân a sych beth bynnag fo'r tywydd.
- Gyda chymorth pŵer drwy ddefnyddio'r sbardun troi neu'r sbardun bawd.
- Yn y modd hybrid drwy wthio liferi gyrru a throi'r sbardun ar yr un pryd.

Mae'r gadair olwyn ar gyfer pob tir yn eich galluogi i gyfuno pŵer llaw gyda chymorth trydanol yn ôl yr angen. Bydd yr ystod pellter yn dibynnu ar yr amodau, pwysau'r defnyddiwr, cyflymder a thir, ond fel canllaw bras, rhwng 8 ac 20 milltir.

- Y gyrrwr - y pwysau mwyaf a ganiateir ar gyfer y gyrrwr yw 100kg, a'r taldra uchaf a ganiateir yw 6'4
- ffrâm - ffrâm alwminiwm
- hongiad - siociau aer Rock Shox monarch r
- brêcs - brêcs disg hydrolog Lefel SRAM ar gyfer pob tywydd
- cynhaliwr traed - cynhaliwr traed y mae'n bosibl addasu ei uchder, sy'n plygu am i fyny er mwyn trosglwyddo, ac y gellir ei dynnu oddi yno
- cynhaliaeth - clustogau cyfforddus wedi'u mowldio, strapiau cynnal tyndra y gellir eu haddasu, strapiau traed, opsiwn ar gyfer gwregys diogelwch
- hyd (wedi'i gosod yn llawn) - 132cm
- lled y sedd - 17 modfedd
- ongl y sedd - 'bwced' 20 gradd er mwyn bod yn ddiogel ac yn gyfforddus
- clustog y sedd - clustog sbwng y gellir ei thynnu oddi yno (maint 40cm), ffabrig polyester y gellir ei lanhau â chadach
- uchder y sedd o'r llawr - 46.5cm
- hyd y sedd - 44.7cm - 48.7cm
- uchder y cynhaliwr traed - uchder mwyaf y cynhaliwr traed - 41cm-48cm
- maint yr olwynion - 24 modfedd
- cyfanswm lled - 74cm
- pwysau - 25kg
- uchder y cefn - 37cm (gellir hefyd ei symud ymlaen neu'n ôl), mae seddi â chefn uwch ar gael ar gais
- modur - 250w, modur both 36v
- batri - 12.8ah, batri ïon lithiwm 36v (gan gynnwys gwefrydd prif gyflenwad)
- cyflymder - uchafswm o 8 milltir yr awr
- cludo - mae cefn y sedd yn plygu'n fflat ac mae'r olwyn gefn yn plygu oddi tanodd i greu siâp ciwb er mwyn gallu cludo'r gadair yn rhwydd. Dydy perfformiad y gadair mewn damwain ddim wedi cael ei brofi.

I weld fideo o gadair 'eTrike' yn cael ei defnyddio <https://youtu.be/tJOZOIWHNGs>



Extreme Motus

ar gael mewn maint canolig a mawr

- Cadair wedi'i hadeiladu ar gyfer tir garw.
- Sedd bwced a brêcs disg annibynnol.
- Harnais 5 pwynt ar gael ar gais.

Manylebau:

- Capasiti Pwysau: 160 kg
- Pwysau'r Gadair: 22.22kg
- Sylfaen yr olwyn: 47"
- Uchder y bar dwylo: 40-44"

Extreme Motus: The Ultimate Off-Road Wheelchair - YouTube

Cadair Olwyn 'Sandpiper' ar gyfer Pob Tywydd a'r Traeth

- Wedi'i dylunio i gael ei defnyddio ar y traeth ac ar wahanol fathau o dir.
- Dur gwrthstaen gradd forol a ffabrig sy'n gwrthsefyll UV.
- Mae gwregys glin a chynhaliwr coes y gellir ei addasu wedi'u cynnwys.

Manylebau:

- Lled y Sedd: 360mm (14.25")
- Uchder y Sedd: 470mm (18.5")
- Cyfanswm Hyd: 1000mm (39.5")
- Lled Mwyaf: 840mm (33")
- Pwysau: 20kg (44 lbs)
- Prif Lwyth: 65kg (143 lbs)

<https://youtu.be/oVoMMHDQuX0>

Rhodiwr Traeth - Rholiwr Pob Tir

- Mae'n ddelfrydol i'w ddefnyddio oddi ar y ffordd ar dir fel tywod, graean a cherrig crynion.

Manylebau:

- Uchder y Sedd: 50.8cm (20")
- Llwyth Mwyaf: 120kg (265 lbs)
- Dimensiynau'r Sedd: 41cm x 28cm (16.15" x 11.25")
- Maint yr Olwynion: 2x 240mm, 2x 300mm

Fideo: Rholiwr Pob Tir WheelEEZ



Mobi-Mat

Dyluniwyd Mat Traeth Mobi-Mat RecPath er mwyn i bobl allu defnyddio'r traeth yn ddiogel. Mae'n addas ar gyfer cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd a phramiau. Mae'n fat ysgafn wedi'i rollo, sy'n gallu cael ei gloi at ei gilydd neu ei binio i'r llawr. Mae gennym 30m i gyd (5m x 1.5m).

- Mae'n ei gwneud yn bosibl i gadeiriau olwyn, sgwteri symudedd a phramiau ddefnyddio'r traeth yn ddiogel.
- Mae ganddo wyneb athraidd, di-lithr nad yw'n rhwygo.

Manylebau:

- Cyfanswm Hyd: 30m (darnau 5m x 1.5m)
- Deunydd: 100% polyester wedi'i ailgylchu
- Defnydd: Traeth, parciau, mynwentydd, eira, rhew

Fideo: [Defnyddio Mobi-Mat](#)


Gasebo Preifatrwydd

Gasebo Canopro Elite hwylus, cryf, 3m x 3m. Gasebo pedair wal i'w ddefnyddio ar gyfer preifatrwydd pan na fydd llawer o gyfleusterau lleol.

- Gasebo hwylus, cryf i gael mwy o breifatrwydd yn yr awyr agored.

Manylebau:

- Maint: 3m x 3m
- Pwysau'r Ffrâm: 40kg
- Pwysau'r Canopi: 9kg
- Pwysau'r Waliau Ochr: 20kg
- Deunydd: Polyester gwrth-ddŵr sy'n arafu tân



Ramp Sianeli Plygu

- Cludadwy, ysgafn a hawdd ei storio.

Manylebau:

- Hyd: 1100mm
- Lled: 210mm
- Uchder Llwyth Mwyaf: 180mm
- Pwysau fesul Ramp: 3.7kg
- Capasiti: 400kg

[Rampiau Sianeli Plygu - The Ramp People 1100mm](#)

System dolen gludadwy

- Mae'n gwella hygyrchedd ar gyfer unigolion sydd ag anawsterau clyw.
- System syml, un botwm, sy'n ysgafn ac yn gludadwy.

Fideo: [Dolen Sain PL1/K1](#)



Pecyn 'Roger On 5' - System Dolen Glyw Gludadwy

- Mae'n helpu pobl sydd â chymhorthion clyw i glywed yn gliriach mewn lleoedd swnllyd
- Mae'n fach ac yn hawdd i'w gario
- Mae'n bosibl ei gysylltu â theledu neu liniaduron, neu ei ddefnyddio wrth sgwrsio